Gofal Llifogydd

Cyngor a gwybodaeth ar gyfer cwsmeriaid yn dioddef gorlifiadau o garthffosydd

Dŵr Cymru
Welsh Water

Hydref 2008
Cyfeirnod: PRE 0051

Rhagair

Bydd amryw ffactorau'n achosi llifogydd ar eiddo. Er enghraifft, llifogydd o heolydd, afonydd a chyrsiau dŵr, draeniau tir annigonol a gorlifiadau o garthffosydd neu ddraeniau preifat. Mae'n anffodus ond bydd carthion yn gorlifo o garthffosydd ar adegau. Bydd y rhan fwyaf o achosion yn digwydd yn dilyn glaw trwm neu rwystrau'n deillio o gamddefnydd o'r system ac, ar adegau, fandaliaeth.

Bydd Dŵr Cymru yn trin gorlifiadau o garthffosydd yn ddifrifol iawn am ein bod yn deall y trallod a'r anghyfleustra maent yn gallu achosi i deuluoedd, yn enwedig pan fydd carthion yn llifo i mewn i gartrefi.

Bydd ein tîm o beirianwyr arbenigol yn ymchwilio llifogydd ac yn ceisio taclo'r achosion. Os digwydd i chi ddioddef llifogydd, byddwn ni a'n partneriaid yn gwneud pob ymdrech i'ch helpu ar gyfnod anodd iawn.

Yn y pum mlynedd 2005-2010 byddwn yn buddsoddi £51 miliwn i daclo gorlifiadau carthffosydd mewn 1,200 adeilad sydd wedi dioddef gorlifiadau un ai tu fewn neu ar eu tir. Bydd hynny £15 miliwn yn uwch na'r cyfnod pum mlynedd blaenorol. Erbyn Mawrth 2010 rhagwelwn byddwn wedi taclo'r holl broblemau llifogydd mewnol parhaus, ynghyd â thraean o'r problemau llifogydd allanol yr hysbyswyd ni ohonynt.

Sut allwn helpu

Cam 1 – Ffonio ni
Mae'n bwysig ein hysbysu o bob achos o lifogydd. Bydd yn ein helpu i bennu blaenoriaethau a gweithio i ddileu'r posibilrwydd o lifogydd pellach cyn gynted â phosibl. Galwch ni ar **0800 085 3968**. Llinellau'n agored 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos.

Cam 2 - Glanhau
Pan fyddwch yn galw bydd ein staff yn dweud pryd gallwch ein disgwyl, fel arfer o fewn 3 awr. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai fydd wedi dioddef llifogydd tu fewn eu cartrefi. Byddwn yn glanhau'r man yn gyffredinol ac yn dychwelyd os bydd angen.
tudalen 4

Cam 3 - Ymchwilio
Byddwn yn cynnal ymchwiliad cychwynnol er mwyn sefydlu achos y llifogydd ac yn ysgrifennu atoch o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'r digwyddiad i'ch hysbysu o'r datblygiadau. Bydd un pwynt cyswllt gennych fydd yn gallu ateb eich cwestiynau. Mewn rhai achosion bydd yr ymchwiliad yn gymhleth ac yn cymryd tipyn o amser. Mae'n bosibl na fydd y llifogydd yn gyfrifoldeb Dŵr Cymru a bydd rhaid cysylltu â chyrff eraill, megis cynghorau lleol.
tudalen 5

Cam 4 – Achos y broblem
Byddwn yn ymweld neu'n cysylltu eto o fewn 10 diwrnod gwaith i'ch hysbysu o'r datblygiadau ac, os byddwn wedi sefydlu achos y broblem, y cynllun i wneud unrhyw waith adfer angenrheidiol.
tudalen 5

Cam 5 - Iawndal
Byddwn yn anfon yn otomatig unrhyw swm taladwy o dan ein cynllun taliadau safonol gwarantedig, o fewn 20 diwrnod gwaith, os byddwn wedi'n hysbysu o'r broblem. Byddwn yn eich cynghori i wneud cais ar yswiriant eiddo eich cartref, ond byddwn yn cyfrannu £80 tuag at unrhyw swm taladwy ymlaen llaw o dan y polisi (yn achos pob hawliad) a £40 tuag at unrhyw gynnydd yn eich premiwm yn y flwyddyn yn dilyn eich cais.
tudalen 5

Cam 6 – Dilyn i fyny
Byddwn yn cysylltu unwaith eto o fewn 30 diwrnod o'r digwyddiad i'ch hysbysu o ganlyniadau'r ymchwiliad a gwaith i atal achosion pellach. Efallai bydd angen gwaith arall fel rhan o gynllun ehangach. Bryd hynny byddwn yn eich hysbysu, bob 90 diwrnod, o'i statws o fewn ein Cynllun Rheoli Asedau.

Pwy sy'n gyfrifol am y rhwydwaith carthffosiaeth?

Mae'r system garthffosiaeth yn cynnwys carthffosydd cyhoeddus, a charthffosydd a draeniau preifat. Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am y system garthffosiaeth gyhoeddus. Cysylltir pob cwsmer â draen, sy'n gyfrifoldeb perchennog yr adeilad. Mae cwsmeriaid yn gyfrifol am eu draeniau preifat hyd at eu cysylltiad â'r carthffosydd cyhoeddus. Mae pob cwsmer a wasanaethir gan garthffosydd preifat yn gyfrifol ar y cyd am eu cynnal a'u trwsio. Ni fydd rhai adeiladau'n cysylltu â'r carthffosydd; gwasanaethir nhw gan danc septig neu geubwll.

Byddwn yn cadw mapiau digidol o'r carthffosydd cyhoeddus a gallwch gael copi o fap eich ardal (am swm bach). Bydd rhai achosion pan na fydd yn glir pwy sy'n gyfrifol am garthffos a bryd hynny bydd rhaid i ni ymchwilio'r mater.

Os achosir problem gan rywbeth o fewn draen neu garthffos breifat, bydd rhaid i chi ac unrhyw un arall sy'n ei defnyddio gyflogi contractwr cymwys i glirio'r rhwystr neu wneud gwaith trwsio. Nid yw Dŵr Cymru yn gyfrifol am gynnal a thrwsio pibellau preifat.

Eich carthffosydd...

Ar gyfartaledd bydd pob un ohonom yn cynhyrchu rhwng 135 a 180 litr (30 i 40 galwyn) o garthion y dydd. Yn ystod tywydd gwlyb bydd carthion yn cynnwys llawer o ddŵr glaw, sy'n gwanedu'r carthion ac yn helpu i lanhau carthffosydd.

Bydd carthffosydd yn defnyddio disgyrchiant i gludo carthion i weithfeydd trin dŵr gwastraff. Mae hynny'n hawdd mewn ardaloedd bryniog gan y byddwn yn dilyn goleddf y bryniau er mwyn darparu'r graddiant. Mewn mannau gwastad rhaid gosod y carthffosydd yn is o dan y ddaear er mwyn darparu'r graddiant i gludo'r carthion. Os na fydd modd defnyddio graddiant, byddwn yn defnyddio pympiau i wthio carthion drwy'r carthffosydd.



Mae dau fath o system carthffosiaeth - cyfunol ac ar wahân.

Cyfunol



Yn gyffredinol gosodwyd rhain cyn 1960. Maent yn cludo dŵr carthion budr a dŵr glaw o gartrefi ac adeiladau eraill. Er bod lefelau carthion yn tueddu i fod yn gyson, mae dŵr glaw yn amrywio. Rhaid i garthffosydd cyfunol fod yn ddigon mawr i gario dŵr glaw a charthion. Cynllunnir y carthffosydd i gludo cyfaint o ddŵr. Cyfrifir hynny wrth luosi â 3 y 'llif tywydd sych' (carthion a gynhyrchir mewn diwrnod yn ystod cyfnod sych) er mwyn pennu maint carthffos. Mae'r carthffosydd hyn yn amrywio mewn diamedr rhwng 10 centimetr a sawl metr.

Ar wahân



O 1960 ymlaen dechreuwyd adeiladu carthffosydd ar wahân - un ar gyfer carthion ac un fwy (carthffos dŵr arwyneb) ar gyfer glaw. Y rheswm am hynny yw nad oes angen trin dŵr glaw. Bydd gweithfeydd carthffosiaeth sy'n derbyn gwastraff gan garthffosydd cyfunol yn gorfod ymdopi â chyfeintiau llawer uwch oherwydd y dŵr glaw. Bydd y carthffosydd budr yn cludo carthion i'w trin mewn gweithfeydd dŵr gwastraff. Yn eu tro bydd carthffosydd dŵr arwyneb yn cysylltu ag afonydd neu nentydd er mwyn dychwelyd y dŵr i'r amgylchedd.

Beth yw llifogydd carthion a pham fydd yn digwydd?

Pan fydd carthion yn llifo o bibell, twll archwilio, draen neu doiled, gelwir yn llifogydd carthion.

Achosir llifogydd gan y dilynol:

- rhwystr o fewn pibell yn dilyn tyfiant planhigion, pibell yn cwympo, camddefnydd neu fandaliaeth - rydym wedi darganfod tuniau paent, cewynnau, haenau saim, dillad a phob math o bethau eraill yn achosi rhwystrau
- methiant offer, megis pympiau mewn gorsaf bwmpio oherwydd problemau trydanol ac ati
- gorlwytho hydrolig - pan fydd carthffosydd yn gorlifo am eu bod yn rhy fach i ddelio â'r llif (efallai'n dilyn datblygiadau newydd mewn ardal) neu adeg stormydd pan fydd gormod o ddŵr glaw ac ati'n llifo i'r carthffosydd.

Gall yr achos fod dipyn o ffordd i ffwrdd o leoliad y llifogydd.

Mae 4 categori llifogydd o garthffosydd cyhoeddus:

- **Llifogydd mewnol** – pan fydd carthion yn llifo i mewn i adeilad
- **Llifogydd allanol** – pan fydd cwsmer wedi'i effeithio'n sylweddol gan y llifogydd, sef:-
  - dim modd myned i'r cartref heb gamu drwy garthion
  - llawer o ddŵr ar yr ardd gan ei difrodi i bob pwrpas, a'r teulu ac anifeiliaid yn methu ei defnyddio
  - adeiladau allanol neu garejis ar wahân i rai integrol wedi dioddef llifogydd
- **Llifogydd difrifol eraill** – llifogydd mawr ar heolydd A neu lifogydd yn achosi problemau tebyg.
- **Llifogydd eraill** – dŵr yn llifo ar heolydd, mannau cyhoeddus a llefydd eraill.

1. Ymateb i alwad

Byddwn yn ymateb i achosion llifogydd carthion, dim ots os yn ystod oriau gwaith ai peidio. Byddwn yn cyrraedd y lleoliad cyn gynted â phosibl, yn gyffredinol o fewn 3 awr o'ch galwad, ddydd a nos. Fodd bynnag, ar adegau, yn arbennig yn ystod tywydd garw iawn, gallwn gymryd yn hirach ond byddwn yn eich hysbysu o'r amser tebygol.

2. Glanhau

Llifogydd mewnol
Ymateb Dŵr Cymru
Pan fydd carthion yn dod i mewn i'ch cartref, garej integrol neu adeiladau allanol, byddwn yn helpu i waredu carpedi, dodrefn ac eitemau eraill. Byddwn hefyd yn glanhau ac, os byddwch yn cytuno, yn diheintio'r ardal fydd wedi dioddef. Byddwn fel arfer yn gwneud hynny wrth ymateb yn y lle cyntaf. Mewn cyfnodau prysur mae'n bosibl bydd rhaid i ni orffen y gwaith glanhau y diwrnod canlynol, neu mor gynnar â phosibl. Yn ogystal, mae'n bosibl byddwn yn galw am gymorth arbenigwyr.

Bydd angen holi eich cwmni yswiriant os bydd angen cadw eitemau i'w harchwilio gan bobl yn gweithio ar eu rhan. Os na fydd lle addas i storio'r eitemau yn eich cartref oherwydd y posibilrwydd o ladrad neu fandaliaeth, byddwn yn storio eitemau wedi'u difrodi yn ein depot agosaf tan i'r archwiliwr yswiriant wneud ei waith. Os na fydd yr eitemau'n destun polisi yswiriant byddwn yn eu gwaredu os dyna eich dymuniad.

Llifogydd mewnol
Camau gennych chi
- Os bydd eich mesurydd nwy neu unrhyw offer nwy wedi bod o dan ddŵr, galwch eich cyflenwr nwy cyn ailddechrau'r cyflenwad nwy neu oleuo unrhyw offer
- Os bydd y mesurydd trydan, blwch ffiwsiau neu unrhyw offer neu socedau trydan wedi bod o dan ddŵr, galwch eich cyflenwr trydan am gyngor cyn defnyddio unrhyw offer trydan
- Cofnodi manylion y difrod gan ddefnyddio lluniau neu fideo os yn bosibl
- Byddwn bob amser yn argymell defnyddio 'dehumidifier' ac yn benthyca un i chi os bydd un ar gael
- Sicrhau bydd aer yn llifo drwy eich cartref ac adeiladau, gan adael ffenestri'n agored gymaint â phosibl
- Sicrhau fod briciau aer ger lloriau yn glir er mwyn cynnal llif yr aer.

Llifogydd allanol
Ar ôl taclo achos y llifogydd byddwn yn clirio pob man o wastraff carthion ac yn ei gymryd i ffwrdd. Gyda'ch caniatâd, byddwn yn trin pob ardal sydd wedi bod o dan ddŵr gyda diheintydd.

Os bydd lawntiau a mannau eraill megis graean wedi dioddef, byddwn yn dychwelyd i'w glanhau'n drylwyr pan fydd y tir ac unrhyw wastraff wedi sychu. Bydd angen cyfyngu defnydd o'r mannau hynny tan i ni orffen ein gwaith glanhau a gyda'ch caniatâd byddwn yn gosod rhuban o gwmpas y man tan iddo adfer i'w gyflwr blaenorol.

Os bydd ardal wedi'i halogi'n ddifrifol gallwn adnewyddu glaswellt, graean neu arwynebau eraill mewn gerddi os pennir yn angenrheidiol. Byddwn yn tynnu planhigion a llwyni wedi'u difrodi gan y llifogydd ac yn gosod rhai yn eu lle, neu'n cytuno swm o arian i'w dalu os yn well gennych wneud hynny eich hun.

Llifogydd eraill
Os bydd angen, byddwn yn trefnu peiriannau i lanhau heolydd cyhoeddus.

Mae'r Ganolfan Ymchwil Dŵr (WRc - Water Research Centre) yn rhoi cyngor ar effaith llifogydd carthion mewn gerddi a llefydd allanol eraill a sut i'w taclo. Dyma grynodeb o'r cyngor bydd yn cynnig:-

Canolfan Ymchwil Dŵr
Bydd y rhan fwyaf o'r microbau yn y llifogydd carthion ar feysydd chwarae, gerddi, lawntiau, tarmac a llwybrau'n diflannu o fewn dyddiau yn dilyn gwaith ymbelydredd UV - sef golau haul. Gellir defnyddio deunydd diheintio ar fannau tarmac a llwybrau, ond dylid gadael pridd a glaswellt i adfer yn naturiol.

Mewn profion gan y Ganolfan, gostyngwyd nifer y colifform ar laswellt a chlai i'r lefelau cefndir arferol, yn aml o fewn 13 diwrnod. Fodd bynnag, cymrodd 20 diwrnod ar dir a thywod yn y gwanwyn a'r hydref. Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfnodau cwarantin ar gyfer gwahanol arwynebau ar sail cyfnodau goroesi E coli mewn gwahanol dymhorau.

Yn gyffredinol, roedd arwynebau llai amsugnol neu hydraidd yn amsugno llai o garthion, gyda'r bacteria yn dychwelyd i lefelau cefndir yn fuan.

Datgelodd yr ymchwil hefyd fod dim llawer o berygl i iechyd y cyhoedd o lifogydd carthion os dilynir rhai camau syml. Ar arwynebau allanol dylid gwaredu unrhyw ddŵr ac osgoi defnyddio'r ardal at ddibenion hamdden. Nid yw'n argymell claddu unrhyw halogyddion, oherwydd bydd ymbelydredd UV – golau haul naturiol - yn gweithio i ddileu pathogenau.

Cyfnod Cwarantin (dyddiau)

	Wyneb y tir	
Tymor	**Glaswellt/Clai**	**Pridd/Tywod**
Gwanwyn	13	20
Haf	6	9
Hydref	13	20
Gaeaf	18	11

3. Ymchwilio

Yn dilyn ein gwaith glanhau cychwynnol byddwn am sefydlu achos y llifogydd cyn gynted â phosibl. Byddwn yn cynnal archwiliad CCTV cyn gynted â phosibl – fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith. Bydd yn darparu gwybodaeth am gyflwr y carthffosydd ac yn datgelu craciau, problemau a rhwystrau.

4. Achosion

Byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'n canlyniadau a'n gwaith i ddatrys y broblem. Ar ôl cynnal archwiliad CCTV yn eich ardal, os na fyddwn wedi datgelu achos y broblem byddwn yn ymestyn cwmpas ein harchwiliad. Os yn datgelu mai trydydd parti sydd wedi achosi'r broblem, byddwn yn ysgrifennu ato i esbonio ein canlyniadau a gofyn iddo gymryd camau i daclo'r broblem cyn gynted â phosibl. A byddwn yn ysgrifennu atoch chi i esbonio beth fydd yn digwydd.

Os bydd cyflwr y carthffosydd yn galw am waith sylweddol, byddwn yn eich hysbysu o'r datblygiadau a'r amserlen debygol.

Byddwch yn gallu cysylltu â ni ar unrhyw amser wrth alw ein canolfan alwadau 24 awr ar **0800 085 3968**, neu yn ystod oriau swyddfa wrth gysylltu â'r person yn delio â'r mater.

5. Iawndal

Os byddwch wedi cyflogi contractwr preifat i'ch helpu a heb gysylltu â ni am y digwyddiad, ni fyddwn yn ad-dalu unrhyw gostau.

Os na fydd achos y llifogydd yn gysylltiedig â'r carthffosydd cyhoeddus, er enghraifft rhwystr o fewn carthffosydd preifat, ni fyddwch yn gymwys i dderbyn taliad gwarantedig safonol nac unrhyw iawndal gan Dŵr Cymru.

Cwsmeriaid preswyl
Llifogydd mewnol
Os yn ein galw am gymorth a'n bod ni'n ymateb, byddwch yn derbyn y taliad gwarantedig safonol o fewn 20 diwrnod gwaith o'r digwyddiad.

Byddwn yn gofyn i chi gysylltu â chwmni yswiriant eich cartref/eiddo er mwyn adfer y difrod. Y rheswm am wneud hynny yw byddant yn delio â'r mater ar eich rhan ac fel arfer yn darparu ar sail 'newydd am hen'.

Rydym yn derbyn bydd rhaid talu blaendal ac felly byddwn yn gwneud cyfraniad o £80 tuag at unrhyw swm taladwy ymlaen llaw o dan y polisi (am bob cais) a £40 tuag at unrhyw gynnydd yn eich premiwm yn y flwyddyn yn dilyn eich cais.

Llenwch y ffurflen gais gyda'r llyfryn hwn.

Mewn achosion difrifol bydd eich cwmni yswiriant yn cytuno i drefnu llety arall ar eich cyfer, ond cofiwch gytuno hynny cyn symud allan.

Llifogydd allanol
Os yn ein galw am gymorth a'n bod ni'n ymateb, byddwch yn derbyn y taliad gwarantedig safonol o fewn 20 diwrnod gwaith o'r digwyddiad.

Byddwn yn gofyn i chi gysylltu â chwmni yswiriant eich cartref/eiddo. Y rheswm am wneud hynny yw byddant yn delio â'r mater ar eich rhan ac fel arfer yn darparu ar sail 'newydd am hen.

Rydym yn derbyn bydd rhaid talu blaendal ac felly byddwn yn gwneud cyfraniad o £80 tuag at unrhyw swm taladwy ymlaen llaw o dan y polisi (am bob cais) a £40 tuag at unrhyw gynnydd yn eich premiwm yn y flwyddyn yn dilyn eich cais.

Llenwch y ffurflen gais gyda'r llyfryn hwn.

Dim yswiriant ar eich cartref
Os yn ein galw am gymorth a'n bod ni'n ymateb, byddwch yn derbyn y taliad gwarantedig safonol o fewn 20 diwrnod gwaith o'r digwyddiad.

Os yn gartref heb yswiriant **AC** yn wynebu **CALEDI ARIANNOL** yn dilyn y digwyddiad, byddwn yn ystyried gwneud cyfraniad at gost trwsio neu adnewyddu eitemau.

Cysylltwch â ni cyn gwaredu unrhyw eitemau wedi'u difrodi.

Llenwch y ffurflen gais gyda'r llyfryn hwn. Byddwn yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth i gefnogi eich cais ac ni fyddwn yn prosesu eich cais heb hynny. Rhaid anfon y ffurflenni a'r wybodaeth at eich swyddfa ardal.

Cwsmeriaid dibreswyl (busnes)
Llifogydd mewnol
Os yn ein galw am gymorth a'n bod ni'n ymateb, byddwch yn derbyn y taliad gwarantedig safonol o fewn 20 diwrnod gwaith o'r digwyddiad.

Bydd disgwyl i gwsmeriaid dibreswyl gynnal polisïau yswiriant addas a dylech gysylltu â'r cwmni perthnasol er mwyn adfer y difrod.

Ni fyddwn yn gwneud taliadau iawndal neu ex-gratia i gwsmeriaid dibreswyl.

Llifogydd allanol
Os yn ein galw am gymorth a'n bod ni'n ymateb, byddwch yn derbyn y taliad gwarantedig safonol o fewn 20 diwrnod gwaith o'r digwyddiad.

Bydd disgwyl i gwsmeriaid dibreswyl gynnal polisïau yswiriant addas a dylech gysylltu â'r cwmni perthnasol er mwyn adfer y difrod.

Ni fyddwn yn gwneud taliadau iawndal neu ex-gratia i gwsmeriaid dibreswyl.



Llenwch ac anfonwch eich ffurflen at:

Cwsmeriaid y gogledd:

Rheolwr Achosion Carthffosiaeth
Dŵr Cymru
Depot Dinas
Llanwnda
Caernarfon
LL54 5UB

NEU

Cwsmeriaid y de:

Rheolwr Achosion Carthffosiaeth
Dŵr Cymru
Blwch Post 8
Nelson
CF46 6YG

Rhifau ffôn a gwefannau defnyddiol:

Gwybodaeth am fesurau atal llifogydd a glanhau ar ôl llifogydd:
www.environment-agency.gov.uk

Ymgynghorwyr Datblygu'r Rhwydwaith
(codir pris rhesymol am fapiau carthffosydd)

ffôn: **01443 331155**
ffacs: **01443 331161**
ebost: **NDCenquiries@dwrcymru.com**

Cyhoeddiadau defnyddiol

Am gopi o 'Addewid i chi ein cwsmer' neu 'Delio â'ch cwynion', galwch ein llinell gyhoeddiadau **0800 052 0138** neu ewch i'r wefan **www.dwrcymru.com/publications**

Cwynion

Bydd y cwmni'n dilyn trefn ffurfiol wrth ddelio â chwynion am unrhyw agwedd o'i wasanaethau. Bydd yn well gennym ddelio â chwynion dros y ffôn, oherwydd dyma'r ffordd hawsaf o ddatrys problemau. Rhif ein gwasanaethau carthffosiaeth yw **0800 085 3968**

Dyma'r cyfeiriad os am ysgrifennu atom:

Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid Carthffosiaeth
Dŵr Cymru
Lôn Wern Fawr
Blwch Post 3118
Caerdydd
CF30 0BY

Neu ebost - sewerage@dwrcymru.com

Camau i helpu i atal llifogydd carthion

Nid unedau gwaredu gwastraff yw carthffosydd. Cynlluniwyd nhw i gludo dŵr, hylif, carthion a phapur toiled. Ond yn anffodus mae sbwriel cynyddol yn cael ei waredu i lawr y toiled.

Er mwyn gostwng y risg o achosi llifogydd wrth flocio draeniau neu garthffosydd, peidiwch â gwaredu'r eitemau hyn i lawr y toiled:

- condoms, tywelion misglwyf, ffyn cotwm
- cewynnau 'tafladwy', nylons/teits
- olew neu saim gwastraff
- eitemau plastig neu anhydawdd
- eitemau "tafladwy", neu **unrhyw bethau eraill**

Os yn amau sut i waredu eitem, rhowch mewn "bag a bin" neu gwaredwch mewn canolfan ailgylchu a gwaredu gwastraff.

Os yn bwriadu ymestyn eich cartref cofiwch osgoi adeiladu dros garthffos a chysylltu'r draeniau mewn modd na fydd yn caniatáu dŵr glaw i redeg i ddraeniau wedi'u cynllunio i gymryd dŵr gwastraff yn unig. Gallai methu gwneud hynny achosi llifogydd.

Yn yr un modd, peidiwch â chysylltu pibell wastraff â phibell dŵr arwyneb. Bydd yn achosi llygredd a gallai arwain at achos llys. Bydd eich awdurdod cynllunio yn gallu rhoi cyngor ar reoliadau adeiladu.

Geiriadur termau

Cynllun Rheoli Asedau – rhaglen waith a gytunwyd â'r Rheoleiddiwr (Ofwat) am gyfnod pum mlynedd. Mae'r cynllun cyfredol (AMP4) yn rhedeg o Ebrill 2005 hyd fis Mawrth 2010 ond rydym eisoes yn cynllunio rhaglen AMP5 (2011-2015).

Cofrestr risg – Yn unol â gofynion y rheoleiddiwr, rhaid i gwmnïau dŵr gadw cofrestr o bob adeilad mewn perygl o ddioddef llifogydd carthion a llunio cynllun i leihau'r risg hwnnw.

Carthbwll – tanc sy'n derbyn carthion budr, fel arfer o un adeilad. Cedwir yno tan y cesglir y carthion, felly rhaid iddo ddal dŵr. Fel arfer lleolir ger ffin y tir.

Archwiliad CCTV – gosod camera teledu cylched caeedig yn y pibellau a chofnodi'r lluniau. Bydd yn datgelu namau a rhwystrau o fewn y rhwydwaith.

Carthffos gyfunol – yn gyffredinol defnyddiwyd cyn 1960. Mae'n cludo carthion a dŵr arwyneb o'r eiddo.

Gorlif carthffos gyfunol – pibell sy'n gollwng dŵr i ddyfrgwrs, fel arfer yn ystod tywydd garw. Defnyddir adeg argyfwng yn unig ac maent yn destun caniatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ceuffos – dyfrgwrs neu nant a droswyd i bibell neu gorchuddiwyd. Nid ydynt yn garthffosydd cyhoeddus.

Draen – pibell fach sy'n cludo carthion budr a/neu dŵr arwyneb o un adeilad.

Carthffos fudr – pibell a fwriedir i gario carthion budr yn unig.

Taliad safonol gwarantedig – taliad a wneir i gwsmeriaid sydd wedi dioddef llifogydd carthion.

Draen priffordd – pibell yn eiddo'r awdurdod priffyrdd sy'n cludo dŵr arwyneb o heolydd a llwybrau.

Gorlifo hydrolig – gorlenwi carthffosydd yn arwain at lifogydd.

Siambr archwilio – siambr fach sy'n darparu mynediad i ddraen neu garthffos, fel arfer ger ffin eiddo. Gosodir ble bydd pibell yn newid cyfeiriad neu ddwy bibell yn cyfuno. Maent yn elfennau angenrheidiol o ddraeniau a charthffosydd cyhoeddus a phreifat.

Twll archwilio – siambr ddyfnach na siambr archwilio sy'n darparu mynediad i garthffosydd. Fel arfer gosodir ar ffyrdd neu fan agored cyhoeddus, ond gallant fod o fewn ffin eiddo tŷ neu fusnes. Maent yn elfennau angenrheidiol o ddraeniau a charthffosydd cyhoeddus a phreifat.

Carthffos breifat/carthffos heb ei mabwysiadu – system garthffosiaeth na chynlluniwyd neu adeiladwyd i'n safonau ni, neu na chynigiwyd i'w mabwysiadu gan y datblygwr. O ganlyniad nid yw'n rhan o'r system garthffosydd gyhoeddus. Cyfrifoldeb y bobl a wasanaethir gan y system yw unrhyw waith cynnal a thrwsio.

Carthffos gyhoeddus – carthffos a fabwysiadwyd yn gyhoeddus neu oedd yn cael ei defnyddio cyn 1937.

Gorsaf pwmpio carthion – offer a ddefnyddir i bwmpio carthion o dan bwysau o un pwynt i'r nesaf drwy garthffos godi (isod) pan na fydd modd defnyddio disgyrchiant i gludo carthion ar hyd y carthffosydd.

Carthffos godi – carthffos bydd y cwmni'n pwmpio carthion a/neu dŵr arwyneb drwyddi o dan bwysau (gweler uchod).

Gyli heol – rhan o'r system draenio ffyrdd. Siambr fach o dan grât metel, fel arfer ar ymyl ffordd, sy'n draenio dŵr o'r ffyrdd.

Tanc septig – tanc sy'n derbyn carthion budr o ddraeniau un adeilad neu fwy. Trinnir y carthion gan facteria yn y tanc. Fel arfer bydd cysylltiad â draen elifiant neu ffos gerrig.

Cwmni carthffosiaeth – Dŵr Cymru yw'r cwmni dŵr a benodwyd o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 i fod yn gyfrifol am garthffosiaeth.

Ffos gerrig – fel arfer twll o dan y ddaear yn llawn cerrig neu bibell fandyllog gyda cherrig o'i chwmpas. Mae'n galluogi dŵr arwyneb i suddo i'r tir cyfagos ac fel arfer o fewn ffin eiddo adeilad.

Carthffos dŵr arwyneb – pibell a fwriedir i gludo dŵr arwyneb yn unig.

Dyfrgwrs – llif dŵr o fewn sianel naturiol, er enghraifft afon neu nant.

Ffurflen Gais Llifogydd Carthion

Adran 1

Cyfenw: _____ Cyfeirnod cwsmer: _____

Enw cyntaf Mr/Mrs/Ms: _____

Cyfeiriad llawn: _____

_____ Cod post: _____

Ffôn dydd/arall: _____

Dyddiad ac amser y digwyddiad: _____

Adran 2

Yswiriant adeiladau gennych? OES ☐ (Ewch i Adran 3) NA ☐ (Ewch i Adran 4)

Yswiriant eiddo gennych? OES ☐ (Ewch i Adran 3) NA ☐ (Ewch i Adran 4)

Os nad oes yswiriant gennych, esboniwch pam: _____

_____

_____

_____

Adran 3

Beth ydych yn hawlio (ticiwch)?

☐ Cyfraniad o £80 at y swm taladwy ymlaen llaw o dan y polisi.

☐ Cyfraniad o £40 tuag at unrhyw gynnydd yn y premiwm.

(Amgaewch fanylion y blaendal taladwy).

(Ymlaen at adran 5)

(drosodd)

Adran 4

Llenwch yr adran hon os nad oes yswiriant gennych ac am wneud cais ex gratia

Manylion y difrod/colled
(yn cynnwys disgrifiad o'r eitem(au) wedi'u difrodi/colli, y dyddiad prynu neu amcangyfrif oedran a'u gwerth)

Disgrifiad	Oedran/dyddiad prynu	Gwerth

Atodwch ddalenni ychwanegol os bydd angen (Ymlaen at adran 5)

Adran 5

Datganiad y Cwsmer

Rwyf/rydym yn deall na fydd unrhyw daliad a wneir gan Dŵr Cymru mewn ymateb i'r cais hwn yn awgrymu unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol am y difrod a achoswyd i'r eiddo, ac y gwneir fel taliad llawn a therfynol.

ARCHWILIR POB CAIS WRTH DDEFNYDDIO CRONFA DDATA O ACHOSION TWYLL. BYDDWN BOB AMSER YN CYMRYD CAMAU I DACLO TWYLL.

Rwyf/rydym yn cadarnhau fod hwn yn ddatganiad CYWIR & CYNHWYSFAWR o'r cais ar gyfer yr adeilad uchod.

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Nid yw'r ffurflen hon yn golygu fod Dŵr Cymru neu ei asiantau yn derbyn cyfrifoldeb.

Llenwch ac anfonwch eich ffurflen at:

Cyswllt y de
Rheolwr Achosion Carthffosiaeth
Dŵr Cymru
Blwch Post 8
Nelson
CF46 6YG

Cyswllt y gogledd
Rheolwr Achosion Carthffosiaeth
Dŵr Cymru
Depot Dinas
Llanwnda
Caernarfon
LL54 5UB